**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol**
**Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

23 Ebrill 2024

Annwyl David

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.28, rwyf heddiw wedi gosod Memorandwm Esboniadol diwygiedig gerbron y Senedd, sy'n ystyried gwelliannau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, sy'n ymateb i nifer o argymhellion y Pwyllgor Cyllid yng Nghyfnod 1.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid i roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas ag Argymhellion y Pwyllgor Cyllid. Amgaeir copi o'r llythyr hwnnw.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol**
**Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

23 Ebrill 2024

Annwyl Peredur

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Yn dilyn fy llythyrau ar 21 Chwefror a 4 Mawrth ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa cyn trafodion Cyfnod 3.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.28, rwyf heddiw wedi gosod Memorandwm Esboniadol diwygiedig gerbron y Senedd, sy'n ystyried gwelliannau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, sy'n ymateb i nifer o argymhellion y Pwyllgor yng Nghyfnod 1.

Mae fy swyddogion wedi parhau i weithio'n agos gyda Chomisiwn y Senedd ar argymhellion y Pwyllgor ac mae'r sefyllfa ddiweddaraf wedi'i chynnwys yn y tabl sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd.

Yn gywir

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| **Argymhelliad** | **Diweddariad** |
|---|---|
| **Argymhelliad 4.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal gwaith modelu pellach o gostau staff y Comisiwn i gynnwys y graddfeydd cyflog isaf ac uchaf i ddarparu ystod o gostau, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig............. Tudalen 28 | Mae swyddogion Comisiwn y Senedd wedi darparu costau staff diwygiedig ar gyfer y Comisiwn. Mae'r rhain yn cynnwys y graddfeydd cyflog isaf ac uchaf sydd wedi'u cynnwys gyda'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn trafodion Cyfnod 3. |
| **Argymhelliad 7.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal adolygiad o gyfluniad presennol swyddfeydd yr Aelodau yn Nhŷ Hywel, gan gynnwys: • asesiad a dadansoddiad cost a budd ar y defnydd o weithio cynllun agored; • ac asesiad o'r defnydd o ynni. ............... Tudalen 29 | Mae'r Llywydd wedi anfon ymateb ar wahân i'r argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 8.**<br>Yng ngoleuni'r system etholiadol newydd a allai arwain at gynnydd yng nghostau teithio, llety preswyl a staff yr Aelodau, mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn ailasesu'r costau hyn ac yn darparu ystod o gostau yn hytrach na defnyddio costau cyfartalog yr Aelodau presennol, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. ......... Tudalen 29 | O'r trafodaethau y mae fy swyddogion wedi'u cael gyda swyddogion Comisiwn y Senedd, rwy'n deall bod ymarfer wedi'i gynnal i nodi methodoleg gredadwy ar gyfer amcangyfrif costau o'r fath mewn ffordd a oedd yn mynd i'r afael â'r argymhelliad. Fodd bynnag, sefydlwyd na ellid pennu costau ar hyn o bryd gydag unrhyw lefel o gywirdeb. Mae nifer o newidynnau y byddai angen eu hystyried ac nad oes digon o wybodaeth ar gael ar eu cyfer ar hyn o bryd (er enghraifft, sut y byddai Aelodau'n gweithredu mewn etholaeth aml-aelod, y ffaith nad oes meintiau etholaethau cyfatebol ar gael i'w defnyddio i allosod hawliadau etc).<br><br>Bydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cynnal gwaith i ddatblygu'r Penderfyniad cyn y Seithfed Senedd; nid yw'n briodol inni achub y blaen ar y gwaith hwn. |
| **Argymhelliad 9.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn diweddaru'r amcangyfrifon cost sy'n ymwneud ag Aelodau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:<br>• gan ddefnyddio'r wybodaeth ariannol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau diweddaraf sydd ar gael; ac | Mae swyddogion Comisiwn y Senedd wedi darparu costau diwygiedig ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau sydd wedi'u cynnwys gyda'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn trafodion Cyfnod 3.<br><br>Mae'r costau ar gyfer y cyflog ychwanegol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi'u cynnwys yn y Memorandwm |

| | |
|---|---|
| • yn cynnwys y cyflog ychwanegol i arweinwyr grŵp gwleidyddol (nad yw yn y llywodraeth) ar gyfer pob Aelod yn eu grŵp (hyd at yr uchafswm y mae'r Penderfyniad yn ei ganiatau). Tudalen 29 | Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn trafodion Cyfnod 3. |
| **Argymhelliad 10.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn gwneud rhagor o waith i asesu'r effaith y bydd gwahanol ddemograffeg o ran Aelodau sy'n cael eu hethol o'r newydd yn ei chael ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau. ............... Tudalen 29 | Mae swyddogion Comisiwn y Senedd wedi cadarnhau i'm swyddogion bod y Bwrdd Pensiynau yn bwriadu comisiynu adroddiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ynghylch effaith Diwygio'r Senedd ar y gronfa bensiwn ac y bydd y Bwrdd yn fodlon rhannu'r adroddiad canlyniadol â'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrinachol. |
| **Argymhelliad 11.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn rhoi rhagor o eglurder ynghylch yr amserlen waith a gaiff ei dilyn ar ystadau'r Senedd a Thŷ Hywel os na chytunir ar y Bil. ............. Tudalen 29 | Mae'r Llywydd wedi anfon ymateb ar wahân i'r argymhelliad hwn. |
| **Argymhelliad 14.**<br>Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith i ddeall lefel yr anwadalrwydd o ran aelodaeth o un Senedd i'r nesaf, a'r goblygiadau cost cysylltiedig, gan gynnwys yr effaith ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau, yng ngoleuni'r newid i gylch etholiadol pedair blynedd. | Yn unol â'r ymateb i argymhelliad 10. |